

Gwybodaeth i Gleifion

Cerrig yn y Bledren

Yr Adran Wroleg

Cyflwyniad

Mae'r bledren yn storio wrin nes bydd yn llawn ac yna'n gwasgu wrth i chi basio wrin (troethi) gan adael iddi gael gwared ar yr holl wrin sydd ynddi.

Gall y cynnyrch gwastraff mewn wrin ffurfio mewn crisialau yn y bledren gan achosi cerrig yn y bledren. Gall problemau godi os daw'r crisialau hyn yn rhy fawr i'w pasio allan gydag wrin neu os ânt yn sownd yn y biben ddŵr (wrethra).

Symptomau

Mae'n bosibl na chanfyddir cerrig ar y bledren am beth amser os nad ydynt yn cychwyn achosi symptomau troethol megis pasio dŵr yn aml, gwaed yn yr wrin, angen mynd i'r tŷ bach ar frys a heintiau wrin. Os cânt eu gadael, gall cerrig ar y bledren achosi llid ar y bledren ac achosi [anymataliaeth](#) (gollwng wrin).

Gall carreg fynd yn sownd yn yr wrethra ac atal gwagio'r bledren neu gall llif yr wrin stopio'n sydyn wrth droethi. Gall hyn achosi poen yn y cefn neu'r cluniau, neu ym mhen y pidyn neu'r sgrotwm i ddynion neu'r perinëwm (y rhan rhwng y fwlf a'r anws) i fenywod. Gall y poen fod yn fud-wayw neu'n wayw siarp a gall symud yn sydyn ac ymarfer corff ei wneud yn waeth.

Achosion

- Gall newid yn asidrwydd yr wrin fod yn ddigon i ffurfio carreg – yn aml caiff newid yn asidrwydd ei achosi gan ddeiet anghywir neu drwy beidio ag yfed digon.
- Gall wrin llonydd yn y bledren – diferticwlwm (abnormaledd yn y bledren), strictwr (yr wrethra'n culhau) a chwarren y prostad wedi chwyddo arwain at symiau amrywiol o wrin yn aros yn y bledren ar ôl pasio dŵr.

- Haint yn y rhan wrinaidd – cynnydd yn y tebygrwydd o ddatblygu cerrig yn y bledren. Gall cyflyrau meddygol megis gowt, a all effeithio ar lefel y cynnyrch gwastraff sydd yn yr wrin hefyd achosi cerrig yn y bledren.
- Gall rhai pobl iach ffurfio cerrig am ddim rheswm amlwg.

Caiff rhan fwyaf y cerrig yn y bledren eu ffurfio yn y bledren, ond gall rhai ffurfio yn gyntaf yn [yr arenau](#) a theithio wedyn trwy'r system wrin i'r bledren.

Diagnosis

Gall rhai profion megis [Sgan Uwchsain](#) (USS), Sgan CT neu belydr-X Gael ei gynnal i weld a oes cerrig ar y bledren.

Mae'n bosibl profi samplau [gwaed](#) ac wrin hefyd i ganfod unrhyw gyflwr meddygol sylfaenol a all achosi'r cerrig ar y bledren.

Triniaeth

Fel arfer bydd angen torri cerrig yn y bledren er mwyn gallu eu tynnu o'r bledren. Enw'r llawdriniaeth i wneud hyn yw **systolithopacsi** neu [systosgopi anhyblyg a thynnu cerrig](#).

Beth yw systosgopi anhyblyg/systolithopacsi?

Mae hyn yn cynnwys pasio systosgop anhyblyg (telesgop) trwy'r wrethra i'r bledren dan anaesthetig. Mae hyn yn caniatáu i'r meddyg edrych i mewn i'ch bledren. Os yw'r garreg yn fechan, mae modd dim ond ei chwalu. Yna gellir gwthio'r darnau bychain trwy'r systosgop. Gellir trin rhan fwyaf y cerrig fel hyn. Mewn rhai achosion, caiff y cerrig eu torri gyda laser neu ynni [uwchsain](#) yn hytrach na'u chwalu.

Os yw'r cerrig yn fawr iawn, mae angen llawdriniaeth agored yn hytrach na llawdriniaeth delesgopig. Torrir y croen uwchlaw asgwrn yr arffed i'r meddyg allu mynd at y bledren. Yna agorir y bledren er mwyn gallu tynnu'r garreg. Os oes angen y llawdriniaeth hon arnoch, bydd y meddyg neu'r nyrs yn ei thrafod â chi.

Beth yw buddion y llawdriniaeth hon?

Tynnu'r garreg/cerrig ar y bledren.

Oes unrhyw risgiau? (1)

Cyffredin

Gwaedu neu ychydig o losgi wrth basio wrin am gyfnod byr ar ôl eich llawdriniaeth.

Gosod cathetr wrin dros dro (tiwb bychan yn y bledren i wagio wrin).

Achlysurol

Haint wrinol sy'n galw am driniaeth gwrthfotig.

Dod o hyd i abnormaledd sy'n gofyn am lawdriniaeth neu driniaeth arall.

Cerrig yn y bledren eto neu ddarnau o'r cerrig ar ôl.

Prin

Gwaedu trwm a all ofyn am osod cathetr yn y bledren er mwyn golchi unrhyw dolchen waed neu a allai ofyn am lawdriniaeth arall.

Anaf i'r biben ddŵr (wrethra) yn achosi creithio.

Mae twll yn y bledren yn brin ond petai'n digwydd, byddai angen gosod cathetr yn y bledren. Ar achlysuron prin, mae angen llawdriniaeth agored i atgyweirio'r bledren.

Beth yw'r dewisiadau arall? (2)

Llawdriniaeth agored neu archwiliad – bydd eich meddyg yn trafod y rhain â chi.

Faint cymer y llawdriniaeth?

Bydd hyn yn dibynnu ar faint y garreg a pha mor hawdd fydd ei thorri a'i thynnu o'r bledren. Ar gyfartaledd, tua 30 munud bydd hyn ond gall gymryd hirach.

Beth fydd yn digwydd cyn fy llawdriniaeth?

Cyn mynd am lawdriniaeth bydd gofyn i chi fynd i Glinig Cyn-derbyn yr Ysbyty. Bydd hyn er mwyn sicrhau eich bod yn ddigon da i gael y llawdriniaeth. Gofynnir cwestiynau i chi am eich iechyd cyffredinol a chewch brofion gwaed ac efallai brawf pelydr-X ac ECG (olrhain y galon). Rhydd gyfle hefyd i chi ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Fel arfer cewch eich derbyn i'r ward ar ddiwrnod y llawdriniaeth neu'r diwrnod cynt. Bydd yr anesthetydd yn eich gweld ac yn trafod math yr anesthetig a gewch – anesthetydd cyffredinol (mynd i gysgu) neu anesthetig y cefn (atal y teimlad o'r canol i lawr). Bydd eich meddyg hefyd yn eich gweld ac yn gofyn i chi arwyddo eich ffurflen caniatáu llawdriniaeth.

Gofynnir ichi beidio â bwyta na chymryd unrhyw hylifau nad ydynt yn glir e.e. cawl, llaeth ac ati, am 6 awr cyn eich llawdriniaeth. Gallwch gymryd hylif clir (dŵr/diod blas ffrwythau) am hyd at 2 awr cyn y llawdriniaeth. Wedi hyn, gofynnir i chi beidio ag yfed unrhyw beth arall. **Os ydych yn ddiabetig ac yn dibynnu ar inswlin, bydd angen cyfarwyddyd arbennig arnoch – trafodwch hyn â'ch nyrs.**

Bydd nyrs yn eich hebrwng i'r ystafell anesthetig lle cewch eich anesthetig.

Fydd gen i diwbiau yn dod o'm corff pan ddeffroaf i?

Bydd, drip(tiw b sy'n rhoi hylif mewn gwythien yn eich braich). Fel arfer caiff hwn ei dynnu o fewn 24 awr os ydych yn bwyta ac yn yfed yn dda.

Bydd angen cathetr ar rai cleifion (tiwb yn cael ei roi yn eich pledren drwy eich wrethra). Bydd wrin yn llifo drwy'r cathetr i fag. Efallai bydd gwaed yn eich wrin, mae hyn yn arferol a dylai'r gwaed ddiflannu dros rhyw wythnos. Fel arfer tynnir y cathetr oddi yno ar ddiwrnod y llawdriniaeth neu drannoeth.

Am faint bydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?

1-2 ddiwrnod

Gwybodaeth rhyddhau

- Mae'n debygol o losgi neu bigo pan fyddwch yn pasio dŵr yn syth ar ôl eich llawdriniaeth. Dylai hyn wella dros 2-3 diwrnod.
- Os cwyd gwres arnoch, ac os yw eich wrin yn ddrewllyd / cymylog ac yn llosgi wrth basio wrin, mae'n bosibl bod haint wrin arnoch. Dylech gysylltu â'r ward neu eich meddyg teulu am gyngor oherwydd efallai y bydd angen cwrs o wrthfotigau.
- Efallai y bydd gwaed yn eich wrin. Mae hyn yn arferol a dylai fynd ar ôl 4-7 diwrnod. Os nad yw'r gwaedu'n gwella neu os oes llawer o waed yn eich wrin, dylech ffonio eich meddyg teulu am gyngor.
- Cewch fwyta ac yfed fel arfer. Oni bai eich bod wedi cael cyngor i gyfyngu ar faint o hylif rydych yn ei yfed, dylech geisio yfed 1.5 i 2 litr o hylif bob dydd ar ôl eich llawdriniaeth i helpu i leihau'r risg o haint, a golchi ymaith unrhyw waed yn yr wrin.
- Dylech aros am o leiaf 24 awr cyn gyrru neu ddychwelyd i'r gwaith ar ôl eich llawdriniaeth, a gwneud hynny dim ond os ydych yn teimlo'n ddigon da. Gwiriwch gyda'ch cwmni yswiriant pa bryd y mae'n fodlon ichi ddechrau gyrru eto ar ôl y llawdriniaeth.
- Gallwch gael rhyw cyn gynted ag yr ydych yn teimlo'n gyffyrddus i wneud hynny.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, cewch y manylion cyswllt isod ar gyfer y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg:-

Wardiau Wroleg:-

D5 Gorllewin:- 01633 – 234040 / 234041 (24 awr)

Ward Ddydd Wroleg:-

Ffôn: 01633 – 656378 / 656377 (oriau swyddfa dydd Llun i ddydd Gwener)

Adran Cleifion Wroleg Allanol:-

Ffôn: 01633 – 234979 (oriau swyddfa dydd Llun i ddydd Gwener)

Stef Young, Ymarferydd Nyrsio Cyn-derbyn ar:-

Ffôn: 01633 – 234533 (oriau swyddfa dydd Llun i ddydd Gwener)

Cyfeiriadau:

(1, 2) British Association of Urological Surgeons (2004) *Procedure Specific Consent Forms for Urological Surgery*

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English”.**